Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad

**Dysgu Cymraeg Morgannwg**
**Bloc D**
**Prifysgol De Cymru**
**Trefforest**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF37 1DL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Morgannwg

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ailstrwythurodd y Ganolfan Genedlaethol ddarpariaeth ledled Cymru, gan sefydlu 11 o ddarparwyr. Un o'r rhain yw Dysgu Cymraeg Morgannwg. Lleolir y darparwr ym Mhrifysgol De Cymru yn Nhrefforest.

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn derbyn grant craidd o £1,038,665 yn ystod 2017/18 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu Cymraeg i oedolion yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn cyflogi dros 70 o staff, y rhan fwyaf yn diwtoriaid rhan amser, gyda 12 ohonynt yn staff craidd. Penodwyd y pennaeth ym mis Chwefror 2016.

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn darparu ystod o gyrsiau gwahanol ar lefelau Mynediad i Hyfedredd gan gynnwys cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle a Chymraeg i'r Teulu. Mae hefyd yn darparu rhaglen o gyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr ymarfer ac ymestyn eu medrau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod 2016/17, ymrestrodd dros 1,500 o oedolion ar gyrsiau'r darparwr.

## Crynodeb

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol sy'n gosod y dysgwyr wrth wraidd yr holl weithgareddau.

Mae bron pob dysgwr yn glir iawn ynglŷn â'u rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg. Maent yn mwynhau dysgu'n fawr iawn ac yn hynod frwdfrydig. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud ymdrech i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd cyson a chryf. Maent yn aml yn mynd ati'n rhagweithiol i greu'r cyfleoedd gwerthfawr hyn.

Mae dysgwyr ar y cyfan yn dod yn gynyddol hyderus yn yr iaith gan ddatblygu ystod o fedrau ieithyddol gyda'r prif bwyslais ar siarad yr iaith mewn cyd-destunau amrywiol ac ystyrlon.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi'n effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion y dysgwyr. Maent yn ymateb yn hyblyg er mwyn dilyn trywyddau diddorol a datblygu iaith mewn cyd-destunau perthnasol sydd o fudd i'w dysgwyr.

Mae darpariaeth Dysgu Cymraeg Morgannwg yn cynnwys amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymarfer yr iaith.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol sy'n gyson â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae hybu Cymreictod a'r Gymraeg yn ethos sy'n treiddio trwy agweddau a gwaith y staff a dysgwyr.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau bod rheolwyr yn monitro safonau dysgu ac addysgu'n briodol

A2 Sicrhau bod dysgwyr a thiwtoriaid yn cael mynediad cyfartal i ddeunyddiau ac adnoddau electronig er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â dylanwad ac effaith dysgwyr ar y ddarpariaeth o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae bron pob dysgwr sy’n mynychu’r ddarpariaeth a drefnir gan Ddysgu Cymraeg Morgannwg yn cyfranogi’n gadarnhaol ac yn hynod frwdfrydig yn eu gwersi. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf gan ddwyn dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Mae’r dysgwyr hyn yn medru addasu’r wybodaeth hon i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol. Maent yn llwyddo i ddefnyddio ystod briodol o gystrawennau, geirfa ac amseroedd y ferf yn fedrus i fynegi eu hunain yn ystyrlon.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando’n astud ac yn deall iaith eu tiwtoriaid ac ymwelwyr yn ddidrafferth. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn hyderus i sbardunau llafar yn syth. Ar adegau, mae ychydig o ddysgwyr, ar bob lefel, yn gwneud gwallau sylfaenol ar lafar ond nid yw hyn yn amharu ar lif y sgwrs nac ar eglurder eu mynegiant.

At ei gilydd, mae bron pawb yn medru mynegi barn ar lafar yn bwrpasol yn unol â’u lefel ieithyddol. Yn gyffredinol, mae dysgwyr o bob lefel yn siarad yn gynyddol hyderus ac yn ynganu’n gywir. Yn y gwersi, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio’r Gymraeg yn ddigymell fel cyfrwng cyfathrebu gyda’r tiwtor a chyda dysgwyr eraill. Manteisia llawer o ddysgwyr yn fuddiol ar gyfleoedd dysgu anffurfiol a chyfleoedd y tu allan i’r dosbarth, er enghraifft yn ystod egwyliau coffi, er mwyn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu’n llwyddiannus.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau lefel Uwch yn dangos dealltwriaeth gadarn o strwythurau a gramadeg y Gymraeg. Er enghraifft, maent yn cyfrannu’n estynedig a chywir ar lafar gan ddefnyddio amseroedd gwahanol y ferf, fel y gorffennol cryno a’r amherffaith, yn briodol wrth ddisgrifio digwyddiadau yn y gorffennol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol. Maent yn deall cynnwys testunau yn dda ac yn darllen yn gynyddol gywir yn unol â’r lefel ddisgwyliedig. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau lefel Sylfaen, mae dysgwyr yn darllen, deall ac aralleirio cynnwys y testun yn fedrus gan ddangos ystwythder ieithyddol a dealltwriaeth gadarn.

Mae dysgwyr lefel Hyfedredd yn cyfuno medrau darllen, siarad ac ysgrifennu yn fedrus wrth ddarllen ac ymateb i farddoniaeth. Llwydda’r dysgwyr hyn i arddangos dealltwriaeth ddofn o ystyr ac is-themâu cerddi a’u trafod mewn modd sensitif, aeddfed a rhugl. Enghraifft nodedig o hyn yw eu gallu i drafod a dadansoddi cerdd Iwan Llwyd, ‘Tai Unnos’.

Ar draws y lefelau gwahanol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda. Ar lefelau Mynediad a Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu cystrawennau a brawddegau elfennol ac yn treiglo’n gywir. Maent yn cyflawni tasgau ysgrifenedig syml ac yn defnyddio geirfa addas yn briodol. Mae llawer o ddysgwyr lefel Canolradd yn ysgrifennu at ddibenion gwahanol yn llwyddiannus gan gynnwys ysgrifennu dyddiaduron a llythyrau. Ar gyrsiau lefelau Uwch, mae llawer o ddysgwyr yn creu darnau estynedig ac yn dangos gafael gynyddol ar strwythurau’r iaith ac ymwybyddiaeth o’r cywair priodol. Maent yn cynhyrchu darnau effeithiol yn mynegi

barn am faterion cyfoes fel effaith gweithredoedd dynolryw ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr ar y lefelau Uwch yn dal i wneud gwallau sillafu a gramadegol sylfaenol. Er enghraifft, maent yn gorddefnyddio'r fannod ac yn cael trefn y frawddeg yn anghywir.

Mae llawer o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Morgannwg, gan gynnwys y rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau gweithle, yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ac yn symud ymlaen i gyrsiau dilynol. Mae lleiafrif o ddysgwyr cymwys yn sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn sylweddol uwch na thargedau cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn llwyddo yn yr arholiadau, gyda thua hanner ohonynt yn ennill rhagoriaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol sy'n gosod y dysgwyr wrth wraidd yr holl weithgareddau. At ei gilydd, mae'r dysgwyr yn gefnogol iawn i'w gilydd ac yn barod iawn i ryngweithio ag ymwelwyr yn y Gymraeg. Mae hybu Cymreictod a'r Gymraeg yn ethos sy'n treiddio trwy agweddau a gwaith staff a dysgwyr.

Mae bron pob un o'r dysgwyr, ar draws y lefelau, yn mwynhau'r dysgu'n fawr ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu. Maent yn wybodus o'r systemau diogelu, petai problem yn codi. Gallant ganolbwyntio a dyfalbarhau yn dda iawn, er enghraifft, wrth ddefnyddio geirfa a chystrawennau newydd. Dangosant ymroddiad da i'r broses ddysgu. Mae eu presenoldeb yn dda iawn ac maent yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd. Mae llawer yn teithio'n bell i gyrraedd dosbarth ac yn aml iawn ar ôl y gwaith. Mae llawer o ddysgwyr yn parhau â'u dysgu gan symud ymlaen i lefelau dilynol.

Mae bron pawb yn gweithio'n dda iawn yn unigol ac mewn grwpiau neu fel dosbarth cyfan gan ymgymryd â thasgau'n bwrpasol a'u cwblhau'n llwyddiannus iawn. Maent yn cydweithio ac yn cyfranogi'n dda iawn gan ddangos parch priodol at gyfraniadau dysgwyr eraill ac at y tiwtor. Maent yn barod iawn i helpu ei gilydd, pan fo angen. Mae'r gefnogaeth i'w gilydd a'r ysbryd cynhwysol yn llwyddo i greu cymuned glòs o ddysgwyr brwdfrydig iawn. Mae hon yn nodwedd ragorol. Mae bron pawb yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n dangos lefelau uchel o gymhelliant i'w dysgu. Mae llawer ohonynt yn ymdrechu'n fawr i fynychu cyrsiau atodol a gweithgareddau anffurfiol i ymestyn eu cyswllt â'r iaith.

Mae bron pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd ymarfer eu Cymraeg a'i defnyddio y tu allan i'r dosbarth. Maent yn awyddus iawn i wneud hyn gyda'r teulu, yn y gwaith ac mewn gweithgareddau cymunedol Cymraeg. Er enghraifft, mae carfan o ddysgwyr yn hybu a gwerthu copïau o'r Gloran, sef papur bro Blaenau'r Rhondda Fawr, yn ogystal â chyfrannu erthyglau yn fisol.

Mae llawer o ddysgwyr hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu trwy sefydlu grwpiau sgwrsio eu hunain i'w galluogi i ymarfer yr iaith yng nghwmni ei gilydd yn ystod y tymor ac yn ystod cyfnodau pan nad oes dosbarthiadau yn ystod y gwyliau.

Mae dysgwyr yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth ac ar benderfyniadau yn ymwneud â lles y dysgwr. Er enghraifft, trefnwyd sesiynau darllen

ychwanegol gan y darparwr ym mhob ardal yn sgil sylwadau gan ddysgwyr. Yn ogystal, mae dysgwyr lefel Hyfedredd Merthyr yn rhan o Gymdeithas Gymraeg Soar ac yn cynnal cyfarfodydd a threfnu digwyddiadau ar ran y Gymdeithas. Maent hefyd yn rhan o bwyllgor Menter Iaith Merthyr ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at weithgarwch Cymraeg trwy'r ardal.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn y darparwr yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn sefydlu perthnasoedd gwaith da gyda'u dysgwyr. Mae'r ymdeimlad cymunedol a geir yn y grwpiau dysgu yn nodwedd ragorol ac mae'n meithrin dysgu effeithiol. Mae'r tiwtoriaid hyn yn frwdfrydig ac maent yn llwyddo i ennyn diddordeb eu dysgwyr i ddysgu siarad Cymraeg. Maent yn ofalgar ac yn gefnogol iawn ohonynt.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr a chaiff dysgwyr eu herio'n briodol yn unol â'u lefel. Mae'r tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda iawn ac, yn yr enghreifftiau gorau, yn llwyddo i wahaniaethu'n briodol er mwyn ceisio sicrhau cyfle cyfartal i bawb gyfrannu yn ystod y gwersi. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr siarad a defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rheoli sefyllfaoedd dysgu yn bwrpasol yn y lleoliadau gwahanol. Maent yn cynllunio'n effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion y dysgwyr ac maent yn ddigon hyblyg i ddilyn trywyddau diddorol a datblygu iaith mewn cyd-destunau perthnasol sydd o fudd i'r dysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o wersi amcanion clir ac maent yn cynnwys amrediad o weithgareddau amrywiol ac ysgogol sydd yn caniatáu cyflymdra da i'r gwersi.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth bynciol dda a chyfoes ac maent yn fodelau iaith da. Gwnânt ddefnydd celfydd o'r iaith darged fel cyfrwng cyfathrebu yn y rhan fwyaf o wersi. Mae gan lawer afael gadarn ar fethodoleg dysgu iaith effeithiol, yn bennaf er mwyn datblygu medrau llafar dysgwyr. Defnyddiant adnoddau amrywiol er mwyn ysgogi'r dysgu, er enghraifft cardiau fflach, testunau darllen ffeithiol a dychmygus ynghyd â sbardunau gweledol a chlywedol. Nid yw gafael ychydig iawn o diwtoriaid ar yr iaith Gymraeg yn ddigon cadarn ac nid ydynt eto wedi meistroli'n llawn y grefft o addysgu iaith. Mewn ychydig o achosion, mae diffygion technolegol yn rhwystro rhediad y gwersi.

Mae llawer o'r tiwtoriaid yn rhoi sylw priodol i bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r cynllun 'Defnyddio dy Gymraeg' yn cael effaith gadarnhaol ar ymateb dysgwyr i'r gweithgareddau ychwanegol a drefnir yn yr ardal er mwyn datblygu eu medrau iaith mewn dulliau mwy anffurfiol. Er enghraifft, mewn un wers a arsylwyd, cyhoeddodd y tiwtor dri chyfle i ddysgwyr ymarfer y Gymraeg mewn digwyddiadau cymdeithasol: recordio'r rhaglen deledu 'Jonathan', noson cyri a sglodion yng Nghanolfan Soar, Merthyr, a noson ddawns yng Nghanolfan Garth Olwg, Pentre'r Eglwys. Ar ôl darllen cerdd Iwan Llwyd, 'Carreg Cennen', roedd tiwtor arall yn awyddus i drefnu gwibdaith i'w ddysgwyr i orllewin Cymru i ymweld â'r castell.

Mae’r lefel gref o gysondeb o ran yr arferion da a amlygir ar draws y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn nodwedd ragorol.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn mynnu cywirdeb wrth ymarfer patrymau iaith newydd. Rhoddant adborth llafar pwrpasol a chefnogol yn y gwersi sy’n dangos i ddysgwyr sut i wella agweddau ar eu hiaith, er enghraifft ffurfiau berfol a’r treigladau. Mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i fentro heb ofni gwneud camgymeriadau. Trwy gywiro’n ddetholus, maent yn atgyfnerthu hyder dysgwyr ar yr un pryd. Mae llawer o diwtoriaid yn herio eu dysgwyr yn effeithiol trwy holi cwestiynau’n fedrus. Maent yn ceisio cynnwys pawb ac wrth wneud hynny yn ymestyn ymatebion ac yn dyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr. Gweithredant bolisi asesu’r darparwr yn briodol er mwyn arwain y dysgwyr i wella eu medrau ysgrifenedig eu hunain trwy fireinio eu gwaith gwreiddiol.

Mae’r profiadau dysgu ar draws y darparwr yn ysgogi ac yn herio dysgwyr. Ar sail ymchwil manwl a marchnata dwys, mae’r darparwr yn cynllunio’n strategol i fodloni anghenion cymunedau lleol. Sicrheir bod ystod eang o gyrsiau ar gael ar bob lefel sydd yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yr ardal yn ogystal â bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Enghraifft fuddiol o hyn yw’r ffordd mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Gall aelodau pedwar cwrs prif ffrwd yno fynychu’r dosbarthiadau eraill os na fedrant fynychu eu dosbarth arferol. O ganlyniad, nid yw’r dysgwyr yn colli momentwm yn eu dysgu ac maent hefyd yn dod i adnabod dysgwyr eraill yn dda gan ychwanegu’n fuddiol at eu cyfleoedd i siarad Cymraeg gyda phobl wahanol. Mynychwyd nifer o sesiynau dysgu anffurfiol gan y dysgwyr hyn ers cychwyn y cyrsiau ym mis Medi 2016 a gwirfoddolodd nifer o ddysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhencoed yn 2017.

Mae’r ddarpariaeth yn cynnwys amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae’r darparwr wedi sicrhau llwybrau parhad a dilyniant clir i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith hyd eithaf eu gallu. Mae’r darparwr wedi cynnal y ddarpariaeth hon dros gyfnod o amser, ac wedi ychwanegu ati drwy gynnig darpariaeth atodol, er enghraifft cyrsiau ynganu, cyrsiau adolygu arholiadau a’r Cwrs Calan llwyddiannus a drefnwyd eleni.

Darperir cyfleoedd dysgu ychwanegol niferus y tu allan i’r ystafell ddosbarth ac mae mwyafrif y dysgwyr wedi mynychu digwyddiad anffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae’r digwyddiadau anffurfiol hyn yn amrywio o sesiynau adolygu sy’n cael eu harwain gan diwtoriaid, i foreau coffi sy’n cael eu harwain gan ddysgwyr. Er enghraifft, aed ati i ffurfio perthynas agos rhwng y dysgwyr yng nghanolfan dysgu gydol oes Garth Olwg a’r ysgol gynradd Gymraeg ar yr un safle. Mae plant Blwyddyn 6 yn ymweld â’r dysgwyr i ymarfer siarad Cymraeg. Mae hyn o fudd i bawb trwy roi cyfle i’r oedolion ddefnyddio eu Cymraeg ac i’r plant siarad ag oedolion eraill heblaw am staff yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Hyd yn hyn, nid yw’r Ganolfan Genedlaethol wedi datblygu’n llawn system olrhain cynnydd cenedlaethol ar gyfer defnydd yr holl ddarparwyr. Serch hynny, mae gan diwtoriaid Dysgu Cymraeg Morgannwg adnabyddiaeth dda o anghenion unigol pob dysgwr yn y grwpiau maent yn eu haddysgu. Maent yn adnabod cryfderau'r dysgwyr

yn dda a’r materion sydd angen eu gwella neu eu mireinio. Mae’r tiwtoriaid yn cydosod targedau tymhorol ac yn gwerthuso’r rhain gyda phob dysgwr gan ddefnyddio'r cynllun ‘Defnyddio dy Gymraeg’ a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol. Yna, ar ddiwedd y flwyddyn, mae cyfle i’r tiwtor a’r dysgwr osod y camau dysgu nesaf.

Mae’r darparwr yn cynnig ystod o wybodaeth bwrpasol a defnyddiol, ar lein ac ar bapur, i helpu darpar ddysgwyr i ddewis y cwrs mwyaf perthnasol iddynt. Os digwydd i ddysgwr ganfod ei hun ar gwrs anghywir, mae’r darparwr yn cynnig cymorth amserol i’w helpu i symud i’r cwrs priodol. Mae llawlyfr dwyieithog ar gyfer dysgwyr, ‘Chi a’ch Cwrs’, yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ac yn cyfeirio at bolisïau perthnasol. Mae’r llyfryn yn esbonio'r cod ymddygiad a’r gweithdrefnau cwyno yn glir.

Mae’r darparwr yn cynnig cyfleoedd cyson a chyfoethog i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i’r dosbarth trwy ystod eang o weithgareddau dysgu anffurfiol a digwyddiadau annibynnol. Maent hefyd yn rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ddatblygu a chynnig gweithgareddau maent hwy eu hunain yn eu trefnu. Enghraifft nodedig o hyn yw’r grŵp hanes lleol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr sy’n cael ei redeg gan y dysgwyr eu hunain. Mae enghreifftiau pellach o diwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i gwrdd yn wythnosol yn ystod y gwyliau er mwyn cynnal eu safonau a pharhau â’r hwyl maent yn ei brofi yng nghwmni ei gilydd.

Mae’r tiwtoriaid yn darparu cymorth unigol da ac adeiladol ar gyfer y dysgwyr yn eu gofal. Sefydlwyd trefn glir ar sut i rannu gofidiau dysgwyr â phennaeth y darparwr. Cryfder amlwg yw’r cyfleoedd mae’r darparwr yn eu cynnig i ddysgwyr ym mhob dosbarth i rannu syniadau ar sut i wella’r ddarpariaeth drwy gynrychiolydd y dosbarth ar y panel lleol o Lais y Dysgwr. Mae’r darparwr yn cymryd sylw dyledus o’r syniadau hyn ac yn cyhoeddi adroddiad ar sut y maent yn mynd i ymateb i’r sylwadau. Enghraifft nodedig o wrando ar syniad dysgwr oedd tynnu sylw’r Ganolfan Genedlaethol at ddiffyg cynrychiolaeth gynhwysol yn y deunyddiau dysgu cyfredol.

Mae’r darparwr yn manteisio ar fod yn rhan o Brifysgol De Cymru i gynnig cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae tiwtoriaid yn derbyn gwybodaeth ar sut i ddarparu ar gyfer y dysgwyr hyn yn eu dosbarthiadau. Mae pob dysgwr yn cael cyfle i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ac mae’r darparwr yn ymateb i’r ceisiadau hyn yn bwrpasol.

Mae trefniadau diogelu’r darparwr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol ar gyfer y ddarpariaeth sy’n gyson â chynlluniau’r Ganolfan Genedlaethol. Mae’r cynlluniau strategol yn cynnwys targedau meintiol addas. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gosod ffocws cryf ar les a chynnydd y dysgwyr, ac ar ddarparu cyfleoedd dysgu fforddiadwy yn y gymuned. Mae darparu cyrsiau ar bob lefel, ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol ac ym mhob rhan o’r dalgylch yn ymateb yn dda iawn i ofynion y dysgwyr

Mae systemau cyfathrebu clir rhwng y rheolwyr a'r tiwtoriaid, gan gynnwys cyfres o gyfarfodydd pwrpasol sy'n canolbwyntio ar sicrhau safonau uchel a lles y dysgwyr. Mae'r arweinwyr a'r swyddogion datblygu ardal yn cydweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Maent yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad o safon uchel iawn ac yn gosod disgwyliadau uchel ar yr holl diwtoriaid.

Mae rolau arweinwyr, rheolwyr a'r tiwtoriaid yn glir gyda swydd ddisgrifiadau a chyfrifoldebau addas. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae systemau atebolrwydd yn glir tu fewn i strwythur cyfadran y brifysgol. Mae'r holl staff yn deall y prosesau rheoli perfformiad ac mae rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn briodol.

Ar y cyfan, mae gan y darparwr systemau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae rheolwyr yn dadansoddi data perfformiad ac yn sicrhau ansawdd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn briodol. Mae'r pwyllgor Arsylwi ac Ansawdd yn gweithredu'n effeithiol wrth iddynt ystyried perfformiad y darparwr. Mae arweinwyr yn arsylwi tiwtoriaid newydd yn rheolaidd ac yn cynnig cymorth buddiol iddynt ar sut i wella Ar hyn o bryd, nid oes gan arweinwyr afael digonol ar ansawdd gwaith yr holl diwtoriaid sy'n addysgu yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg adnoddau dynol yn y tîm rheoli. O ganlyniad, nid yw'n bosibl i'r rheolwyr adnabod meysydd i'w gwella yn yr addysgu'n ddigon buan bob tro. Er hynny, at ei gilydd, mae'r prosesau sicrhau ansawdd yn gosod darlun cywir o gryfderau a gwendidau yn y ddarpariaeth. Gwneir defnydd buddiol o'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer gwella safonau a'r addysgu.

Mae ystod eang o hyfforddiant addas ac effeithiol ar gyfer tiwtoriaid a rheolwyr, yn fewnol ac yn allanol. Er enghraifft, cynhelir cyrsiau Prevent (sef cyrsiau i godi ymwybyddiaeth am radicaleiddio a therfysgaeth) a diogelu, gwella gwallau, a gwella methodoleg dysgu iaith. Ffocws yr hyfforddiant yw helpu staff i wella'u harfer ac i godi safonau.

Mae'r darparwr yn rheoli ac yn defnyddio'r cyllid yn dda. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau cenedlaethol a bennir gan y Ganolfan Genedlaethol. Mae rheolwyr ac arweinwyr yn ymwybodol iawn o gostau rhaglenni a hurio lleoliadau dysgu ac yn sicrhau eu bod yn gost-effeithiol. Mae sicrhau bod yr holl gyrsiau yn fforddiadwy i ddysgwyr yn rhan bwysig o strategaeth y darparwr. Mae systemau cadarn gan y darparwr i sicrhau bod gwariant ar weithgareddau'n cydymffurfio â rheolau'r Ganolfan Genedlaethol, sef bod o leiaf 85% o'i gyllid yn cael ei wario ar addysgu.

Mae gan y darparwr lefel addas o diwtoriaid profiadol a brwdfrydig i gyflwyno'r ddarpariaeth.

Ar y cyfan, mae lleoliadau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael yn addas ar gyfer y ddarpariaeth. Mae offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar gael ym mron hanner y lleoliadau dysgu, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol. Serch hynny, nid oes mynediad i offer TGCh ar gyfer athrawon a'r dysgwyr ym mhob un o'r lleoliadau dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2018